

Pleidleisio drwy ddirprwy

Mae pleidleisio drwy ddirprwy yn golygu os na allwch fwrw eich pleidlais yn bersonol, y gallwch gael rhywun rydych yn ymddiried ynddo i wneud hynny ar eich rhan.

Gallwch ddefnyddio'r ffurflen hon i wneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy os ydych yn was y Goron, un o gyflogeion British Council neu'n ŵr neu wraig neu'n bartner sifil i un o'r rhain. Yn yr Alban, mae'r ffurflen hon hefyd yn galluogi rhywun 14 oed neu drosodd sydd wedi'i gofrestru'n was y Goron neu'n un o gyflogeion British Council am ei fod yn byw gyda rhiant neu warcheidwad sy'n was y Goron neu'n un o gyflogeion British Council sy'n gwasanaethu dramor, i bleidleisio drwy ddirprwy mewn etholiadau lleol ac etholiadau i Senedd yr Alban pan fydd yn 16 oed.

Yng Nghymru a Lloegr rhaid eich bod yn 18 oed neu drosodd ar y diwrnod pleidleisio i fwrw pleidlais.

Yn yr Alban rhaid eich bod yn 16 oed neu drosodd ar y diwrnod pleidleisio mewn etholiadau lleol ac etholiadau i Senedd yr Alban. Rhaid eich bod yn 18 oed neu drosodd mewn etholiadau i Senedd y DU a Senedd Ewrop.

Sut ydw i'n gwneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy?

- Rhaid i chi ofyn i rywun sy'n barod i fod yn ddirprwy ar eich rhan a phleidleisio drosoch, ac sy'n gallu gwneud hynny.
- Llenwch y ffurflen gais pleidleisio drwy ddirprwy. Rhaid i chi roi rheswm pam eich bod am bleidleisio drwy ddirprwy.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn cwblhau pob rhan o'r ffurflen ac yn rhoi eich dyddiad geni a'ch llofnod. Bydd angen i chi roi eich dyddiad geni a'ch llofnod ar y ffurflen gais hon. Mae angen y wybodaeth hon er mwyn atal twyll. Os na allwch lofnodi'r ffurflen hon, cysylltwch â'ch swyddfa cofrestru etholiadol.
- Dylech ddychwelyd eich ffurflen i'ch swyddfa cofrestru etholiadol. **Mae'r manylion a rhagor o wybodaeth ar gael yn dyleidlaisdi.co.uk**

Peidiwch â dychwelyd eich ffurflen i'r Comisiwn Etholiadol. Rhaid i'ch ffurflen gais gyrraedd eich swyddfa cofrestru etholiadol erbyn **5pm, 11 diwrnod gwaith cyn y bleidlais** os caiff pleidlais drwy ddirprwy, pleidlais bost neu bleidlais bost drwy ddirprwy ei newid neu ei chanslo, ac erbyn **5pm, 6 diwrnod gwaith cyn y bleidlais** os gwneir cais am bleidlais drwy ddirprwy newydd.

Os nad ydych eisoes wedi cofrestru i bleidleisio, rhaid bod eich cais i gofrestru wedi cyrraedd eich swyddfa cofrestru etholiadol erbyn **hanner nos, 12 diwrnod gwaith cyn y bleidlais**.

Nid yw'r ffurflen hon na'r terfynau amser hyn yn gymwys i Ogledd Iwerddon. Ewch i eoni.org.uk am ragor o wybodaeth.

Beth fydd yn digwydd ar ôl i mi ddychwelyd y ffurflen hon?

- Bydd angen i'ch dirprwy fynd i'ch gorsaf bleidleisio leol i bleidleisio. Os na all eich dirprwy gyrraedd yr orsaf bleidleisio, gall wneud cais i bleidleisio drwy'r post ar eich rhan. Gall wneud cais i wneud hyn erbyn **5pm, 11 diwrnod gwaith cyn y bleidlais**. Gall gysylltu â'r swyddfa cofrestru etholiadol i gael rhagor o fanylion ac i ofyn am ffurflen gais arall. Am fanylion cyswllt, ewch i dyleidlaisdi.co.uk
- Caiff eich dirprwy gerdyn pleidleisio drwy ddirprwy sy'n dweud wrtho ble a phryd i bleidleisio ar eich rhan.
- Dylech ddweud wrth eich dirprwy sut rydych am iddo bleidleisio ar eich rhan, er enghraifft, pa ymgeisydd, plaid neu ganlyniad.
- Os byddwch yn gallu mynd i'r orsaf bleidleisio ar y diwrnod pleidleisio wedi'r cyfan, gallwch bleidleisio eich hun ar yr amod nad yw eich dirprwy eisoes wedi gwneud hynny neu nad yw wedi gwneud cais i bleidleisio drwy'r post ar eich rhan.

Cais i bleidleisio drwy ddirprwy ar gyfer gweision y Goron, cyflogeion British Council, eu gŵr neu wraig neu bartner sifil ac, yn yr Alban, eu plant sy'n byw gyda nhw

Pleidleisio fel dirprwy

Gall person ond bod yn ddirprwy ar ran perthnasau agos ac ar gyfer hyd at ddau berson arall mewn etholiad neu refferendwm.

Perthnasau agos yw gŵr/gwraig, partner sifil, rhiant, tad-cu/mam-gu, brawd, chwaer, plentyn neu ŵyr/wyres yr ymgeisydd.

Gall y sawl rydych yn ei wneud yn ddirprwy ond gweithredu ar eich rhan os yw'n 18 oed neu drosodd (16 neu drosodd yn yr Alban mewn etholiadau lleol ac etholiadau i Senedd yr Alban) ac mae wedi'i gofrestru (neu y bydd wedi'i gofrestru) ar gyfer yr etholiad neu'r refferendwm hwnnw.

Datganiad preifatrwydd

Bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol ond yn defnyddio'r wybodaeth a rowch iddo at ddibenion etholiadol. Bydd yn cadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. Ni fydd yn rhannu gwybodaeth bersonol amdanoch chi nac unrhyw wybodaeth bersonol y byddwch yn ei darparu am bobl eraill o bosibl ag unrhyw unigolyn na sefydliad arall oni bai bod yn rhaid iddo yn ôl y gyfraith.

Sail gyfreithiol casglu'r wybodaeth yn y ffurflen hon yw bod ei hangen er mwyn cyflawni tasg er budd y cyhoedd ac arfer awdurdod swyddogol a roddir i Swyddog Cofrestru Etholiadol fel y nodir yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a'r rheoliadau cysylltiedig.

Y Swyddog Cofrestru Etholiadol yw'r Rheolydd Data. I gael rhagor o wybodaeth am brosesu data personol, dylech gyfeirio at ei hysbyseb preifatrwydd ar ei wefan. Mae cyfeiriad ei wefan a'r manylion cyswllt ar gael yn dyleidlaisdi.co.uk.

Cais i bleidleisio drwy ddirprwy ar gyfer gweision y Goron, cyflogeion British Council, eu gŵr neu wraig neu bartner sifil ac, yn yr Alban, eu plant sy'n byw gyda nhw

6 Eich dyddiad geni a datganiad

Datganiad: Rwyf wedi gofyn i'r unigolyn rwyf wedi'i enwi'n ddirprwy a gallaf gadarnhau ei fod yn barod i bleidleisio ar fy rhan ac y gall wneud hynny.

Hyd y gwn i, mae'r manylion ar y ffurflen hon yn wir ac yn gywir. Deallaf ei bod yn drosedd rhoi gwybodaeth anwir ar y ffurflen hon, ac y gallwn gael fy ngharcharu am hyd at ddwy flynedd a/neu gael dirwy.

Dyddiad geni: Nodwch eich dyddiad geni yn y blychau isod gan ddefnyddio inc du.

--	--	--	--	--	--	--	--

D D M M B B B B

Llofnod: Llofnodwch isod gan ddefnyddio inc du, gan gadw o fewn y llinellau llwyd.

--

Os na allwch lofnodi'r ffurflen hon, cysylltwch â'ch swyddfa cofrestru etholiadol.

7 Dyddiad y cais

Dyddiad heddiw

--	--

--	--

--	--	--	--

D D M M B B B B